Bannau Brycheiniog

# Adroddiad Cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg

2025 - 2026

**Mae gofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gadw at Safonau'r Gymraeg. Mae rhestr lawn o'r safonau a'u disgrifiadau i'w gweld ar wefan yr Awdurdod: [http://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/20170213-Hysbysiad-Cydymffurfio44-Awdurdod-ParcCenedlaethol-Bannau-Brycheiniog-en-1.pdf](http://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/20170213-Hysbysiad-Cydymffurfio44-Awdurdod-ParcCenedlaethol-Bannau-Brycheiniog-en-1.pdf)**

- Sefydlodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Gytundeb Fframwaith ar gyfer gwasanaethau cyfieithu 2020-2025 sy'n cynnwys chwe chwmni cyfieithu.
- Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026 cyflwynodd y Tîm Addysg 11 sesiwn addysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys bron 442 o blant. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau dydd ac allgymorth, lle mae'r Swyddogion Addysg yn arwain gweithgareddau mewn ysgolion. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2025-2026 yn cyfrif am tua 18% o'n holl ddarpariaeth addysg awyr agored.
- Rydym wedi cyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg newydd ar gyfer 2026–2031.
- Ni chafwyd unrhyw gwynion ynghylch Safonau Iaith Gymraeg yn ystod 2025-2026.
- Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cael ei gynhyrchu i gyrraedd gofynion y Safonau gyda chytundeb Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ym Mehefin 2026.

| Rhif y Safon | Dosbarth y Safon | Crynodeb o'r Safonau / Diweddariad Cynnydd |
|---|---|---|
| Gohebiaeth<br>(Safonau 1-7) | Darparu<br>Gwasanaeth | Mae safonau'r gwasanaeth ar gyfer gohebiaeth yn gofyn bod:<br>• Gohebiaeth yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg<br>• Bod pob adran yn cadw cofnod o'r bobl sydd angen eu gohebiaeth yn Gymraeg.<br>• Pan nad yw'n glir a hoffai person dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, fod llythyrau ac e-byst yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.<br>• Bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg<br>• Bod gohebiaeth, cyhoeddiadau a rhybuddion sy'n gwahodd ymateb yn dangos bod croeso i ymatebion yn Gymraeg, y bydd y rhain n cael eu hateb yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.<br>• Yn 2025-26 ni dderbyniwyd unrhyw lythyr yn Gymraeg yn unig. |
| Galwadau Ffôn<br>(Safonau 8-22) | Darparu<br>Gwasanaeth | Mae safonau'r gwasanaeth iaith ar y ffôn yn gofyn bod:<br>• Gwasanaeth yn Gymraeg ar gael yn ein prif dderbynfa. Bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael gwybod beth yw'r dewisiadau yn Gymraeg a bod y brif berson sy'n ateb y ffôn yn siarad Cymraeg.<br>• Bod staff yn cyfarch yn Gymraeg ac yn ymdrin â galwadau yn Gymraeg, cyn belled â bod hyn yn bosibl. Cynigir cwrs ar lein 10 awr, rhad ac am ddim, Work Welsh Welcome, i bob aelod o staff. Mae'r Awdurdod bellach yn cynnal gwersi Cymraeg bob dydd Mercher, y mae 2 aelod o staff yn eu mynychu. Maent bellach wedi cwblhau lefel 1 ac wedi dechrau lefel 2.<br>• Bod staff yn ymwybodol pa aelodau sydd ar gael yn eu hadran sy'n siarad Cymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd<br>(Safonau 24-34) | Darparu<br>Gwasanaeth | Mewn cyfarfodydd<br>• Gydag unigolion, gofyn iddyn nhw a hoffen nhw drafod yn Gymraeg ac, os felly, y byddwn yn llogi gwasanaeth cyfieithu.<br>• Mewn grŵp, gofyn pwy hoffai ddefnyddio'r Gymraeg ac, os yw mwy na 10% yn gofyn am hynny, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu.<br>• Ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, bydd yr hysbyseb yn gwahodd pobl i roi gwybod i ni cyn dyddiad penodol a hoffen nhw ddefnyddio'r Gymraeg ac os bydd unrhyw un yn gofyn am hynny, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu.<br>• Bydd siaradwyr gwadd hefyd yn cael dewis cyflwyno yn Gymraeg.<br>• Os bydd yna siaradwyr Cymraeg mewn cyfarfod cyhoeddus, bydd yn rhaid i'r cyflwyniadau gweledol fod ddwyieithog. |
| Digwyddiadau Cyhoeddus<br>(Safonau 35-38) | Darparu<br>Gwasanaeth | Bydd yn rhaid i bob digwyddiad cyhoeddus rydyn ni'n eu trefnu neu eu hariannu fod o leiaf 50% yn ddwyieithog o ran y deunydd cyhoeddusrwydd, yr arwyddion, deunydd arddangos neu unrhyw sain a gynhyrchir neu a ddefnyddir. |
| Rhaglenni a Chofnodion (Safon 41) | Darparu<br>Gwasanaeth | Bod holl raglenni a chofnodion Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddwyieithog a'r ddwy fersiwn yn cael eu cyhoeddi'r un pryd ar https://governance.beacons-npa.gov.uk |
| Dogfennau a Gynhyrchir<br><br>(Safonau 42-45 a 47-51) | Darparu<br>Gwasanaeth | • Bod pob llyfryn, taflen a phamffled yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog<br>• Bod dogfennau eraill sy'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog gan gynnwys:-<br>- Polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol<br>- Canllawiau a chodau ymarfer<br>- Papurau Ymgynghori<br>- Rheolau sy'n cael eu darparu ar gyfer y cyhoedd<br>Pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu paratoi, bydd datganiad yn cael ei gynnws yn y fersiwn Saesneg yn dweud fod fersiwn Gymraeg ar gael. |

| | | |
|---|---|---|
| Datganiadau i'r Wasg (Safon 46) | Darparu Gwasanaeth | Mae Datganiadau i'r Wasg yn cael eu darparu'n ddwyieithog. |
| Gwefannau a'r Cyfryngau Cymdeithasol (Safonau 52-59) | Darparu Gwasanaeth | Mae gwefannau'r Awdurdod a rhai cyrchfannau Bannau Brycheiniog yn hollol ddwyieithog. Mae gan yr Awdurdod hefyd dudalen Facebook Gymraeg sydd â 586 o ddilynwyr. Mae apiau ar gyfer defnydd allanol gan aelodau'r cyhoedd neu gan wirfoddolwyr yn cael eu darparu'n ddwyieithog. |
| Peiriannau Hunan Wasanaeth (Safon 60) | Darparu Gwasanaeth | Mae cyfarwyddiadau ar beiriannau hunan wasanaeth yn ddwyieithog. |
| Arwyddion (Safonau 61-63) | Darparu Gwasanaeth | Mae arwyddion yn cael eu darparu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn cael ei gosod fel y gellir ei darllen gyntaf. |
| Gwasanaeth Derbynfa (Safonau 64 – 68) | Darparu Gwasanaeth | Mae'r brif dderbynnydd yn siaradwr Cymraeg; mae arwydd yn y brif dderbynfa'n dweud fod croeso i siarad Cymraeg ac mae'r rhai sy'n gweithio yn y dderbynfa'n gwisgo laniard a bathodynnau i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg. |
| Rhybuddion Cyhoeddus (Safonau 69-70) | Darparu Gwasanaeth | Mae rhybuddion swyddogol yn cael eu darparu'n ddwyieithog a'r Gymraeg yn cael ei gosod fel y gellir ei darllen gyntaf. |
| Rhoi Grantiau (Safonau 71-75 a 94) | Darparu Gwasanaeth | Mae cronfa grant yr Awdurdod, y Grant Datblygu Cynaliadwy, yn annog ceisiadau yn Gymraeg drwy'r ffurflenni Mynegi Diddordeb ac Ymgeisio ac yn dangos nad yw ymgeisio yn Gymraeg yn achosi oedi i ymgeiswyr. Mae holl gwybodaeth ynghylch grant ar gael yn ddwyieithog a mae defnyddio'r Gymraeg wrth ddisgrifio prosiectau ac mewn asesiadau yn faen prawf. |

| | | |
|---|---|---|
| Tendrau<br>(Safonau 76-80) | Darparu Gwasanaeth | Cyflwynir tendrau yn Gymraeg os yw'r pwnc yn awgrymu y dylid eu darparu yn Gymraeg neu os yw'r darpar dderbynwyr yn awgrymu y dylen nhw fod yn Gymraeg. Byddwn yn datblygu canllawiau mewn perthynas â hyn. |
| Arall<br>(Safonau 81-87) | Darparu Gwasanaeth | Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 cyflwynodd y Tîm Addysg 11 sesiwn addysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys bron 442 o blant. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau dydd ac allgymorth, lle mae'r Swyddogion Addysg yn arwain gweithgareddau mewn ysgolion. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2025-26 yn cyfrif am tua 18% o'n holl ddarpariaeth addysg awyr agored.<br>Ymhlith y 205 o wirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol, pan ofynnwyd "ydych chi'n siarad Cymraeg?", atebodd 16 ydw ac atebodd 38 dysgwr.<br>Mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn defnyddio'r enw Cymraeg ar y Parc. |
| Ffurfio Polisi<br>(Safonau 88-93 a 95-97) | Ffurfio Polisi | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau ar gyfer ymgorffori hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg wrth gynllunio prosiectau.<br>Asesir pob penderfyniad am ei effaith ar y Gymraeg drwy ddefnyddio'r Ffurflen Asesu Gyfun Sengl. Yn 2022/23 fe wnaethom ddatblygu cynllun rheoli newydd. Bydd ein 'cenhadaeth pobl' yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Gellir gweld y genhadaeth yma: https://dyfodol.bannau.cymru/people/ |
| Cymraeg yn y Gweithle<br>(Safon 98) | Gweithredol | Ar ôl ymgynghori â staff, datblygwyd bolisi i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle a chafodd ei gymeradwyo gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fis Ebrill 2017. |
| Dogfennau Cyflogeion<br>(Safonau 99-104 a 112-119) | Gweithredol | Cynhelir arolygon i ganfod dewis iaith cyflogeion o ran cytundebau cyflogaeth, anghenion hyfforddi, dogfennau perfformiad a ffurflenni gan gynnwys gwyliau blynyddol, dalenni fflecsi ayb. Mae cyflogeion yn deall eu bod yn gallu dewis defnyddio'r Gymraeg gydol gweithdrefn cwyno / disgyblu. |

| | | |
|---|---|---|
| Meddalwedd Cymraeg (Safonau 120-126) | Gweithredol | Mae'r Awdurdod wedi prynu meddalwedd To Bach i helpu gydag ysgrifennu yn y Gymraeg. |
| Sgiliau Siarad Cymraeg y Staff (Safonau 127-131 a 151- 152) | Gweithredol | Mae'r Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn mabwysiadu diffiniadau o lefelau Sgiliau'r Gymraeg wrth siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg sy'n cyd-fynd â lefelau Cymdeithas Profwyr Ieithoedd Ewrop, fel rhan o bolisi recriwtio'r Awdurdod.<br>Gellir gweld sgiliau Cymraeg Staff yma. |
| Cyrsiau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safonau 132-133) | Gweithredol | Bydd y Swyddog Iaith Cymraeg yn datblygu rhaglen o gyrsiau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob aelod o staff ac i aelodau'r Awdurdod ynghylch datblygiadau yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn ymgorffori'r Gymraeg yn ei waith.<br>Mae'r Awdurdod wedi paratoi taflen / poster hwylus fel canllaw cyflym i amlinellu gofynion ein Safonau'r Gymraeg i godi ymwybyddiaeth ac i helpu wrth sefydlu aelodau newydd o staff. |
| Llofnodion e-byst (Safonau 134-135) | Gweithredol | Mae staff wedi cael teitlau swyddi dwyieithog a siaradwyr Cymraeg wedi cael y logo 'Work Welsh'. |
| Recriwtio (Safonau 136-140 a 153- 154) | Gweithredol | Aseswyd pob swydd a gosodwyd yr angenrheidrwydd am sgiliau'r Gymraeg mewn catgoriau: a) Sgiliau'r Gymraeg yn hanfodol<br>b) Amod i ddysgu sgiliau'r Gymraeg ar ôl apwyntio<br>c) Sgiliau'r Gymraeg yn ddymunol<br>d) Dim angen sgiliau'r Gymraeg.<br>Yn ystod 2025-26 hysbysebwyd 4 swydd gyda'r Gymraeg yn cael eu categoreiddio fel hanfodol.<br>Mae lefelau sgiliau siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg sy'n gyson â lefelau ALTE wedi'u mabwysiadu fel rhan o bolisi recriwtio'r Awdurdod ac yn cael eu cymhwyso i bob swydd. |

| | | |
|---|---|---|
| Arwyddion yn y Gweithle (Safonau 141-144) | Gweithredol | Mae arwyddion yn y gweithle'n ddwyieithog, mae'r testun yn gywir o ran ystyr a mynegiant ac wedi'i osod i gael ei ddarllen gyntaf. |
| Dyrchafu (Safonau 145-146) | Dyrchafu | Mae strategaeth bum mlynedd ar gyfer sut y bydd yr Awdurdod yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol ac sy'n cael ei chyhoeddi ar ein gwefa a sy'n cynnwys cynllun gweithredu. Disgwylir i hyn gael ei adnewyddu yn 2031. |
| Cwynion (Safonau 147-150 a 156) | Cadw Cofnodion | Ni dderbyniodd yr Awdurdod unrhyw gwynion ynghylch Safonnau y Iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Mae gan yr Awdurdod weithdrefn gwynion ar gyfer unrhyw gŵ yn ynghylch y Gymraeg. |
| Goruchwylio'r safonau / cynhyrchu adroddiad blynyddol (Safonau 155-176) | Atodol | Mae copi o'r safonau y mae'n ddyletswydd arnom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan. Yr adroddiad hwn yw ein hadroddiad blynyddol ar y perfformiad yn erbyn safonau yn ystod 2025-2026. Mae help, cefnogaeth, monitro a gwerthuso yn erbyn y safonau yn cael ei ddarparu gan Swyddog y Gymraeg yr Awdurdod. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd gweithredol. |